**Cofnodion Is-grŵp Cyllid Cyngor Partneriaeth Cymru**
**Dydd Llun, 18 Hydref 2021**
**11:00-12:30**
**MS Teams**

**Gweinidogion Llywodraeth Cymru**

Rebecca Evans AS, Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol – Cadeirydd
Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Y Cynghorydd Carol Clement-Williams (Castell-nedd Port Talbot)
Y Cynghorydd Aled Davies (Powys)
Y Cynghorydd Anthony Hunt (Torfaen)
Y Cynghorydd Andrew Morgan (Rhondda Cynon Taf)
Y Cynghorydd Mark Pritchard (Wrecsam)
Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Gwynedd)
Y Cynghorydd Rob Stewart (Abertawe)
Y Cynghorydd Paul Miller (Sir Benfro)
Y Cynghorydd Ian Roberts (Sir y Fflint) – Llefarydd Addysg

**Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

Peter Curran – Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

**Swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**

Dr Chris Llewelyn – Prif Weithredwr CLlLC
Jon Rae – Cyfarwyddwr Adnoddau CLlLC
Sharon Davies – Pennaeth Addysg CLlLC
Nigel Aurelius – Torfaen (Prif Swyddog Cyllid)

**Swyddogion Llywodraeth Cymru**

Reg Kilpatrick – Cyfarwyddwyr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng COVID-19
Judith Cole – Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Ash Caddick – Polisi Cyllid a Chynaliadwyedd Llywodraeth Leol
Debra Carter – Dirprwy Gyfarwyddwr Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol
Matt Wellington – Y Gyllideb a Busnes y Llywodraeth
Carl Alexis – Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion
Pat Moran – Yr Is-adran Effeithiolrwydd Ysgolion

**YMDDIHEURIADAU**

Alun Michael – Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

**Eitem 1: Croeso a Chyflwyniadau**

1. Croesawodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol (y Gweinidog) yr aelodau i'r cyfarfod a nododd fod Alun Michael, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru, yn dychwelyd i'r grŵp. Hefyd croesawodd y Gweinidog Weinidog y Gymraeg ac Addysg, a'r Cynghorydd Ian Roberts fel llefarydd addysg CLlLC.

2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Alun Michael.

**Eitem 2: Cofnodion a Materion yn Codi o'r Cyfarfod Blaenorol**

3. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod diwethaf, a nodwyd a diweddarwyd y camau gweithredu.

**Eitem 3: Diweddariad y Gweinidog**

4. Nododd y Gweinidog fod cyhoeddiad Llywodraeth y DU ynghylch yr Adolygiad o Wariant ar 27 Hydref yn darparu'r diweddaraf am y rhagolwg cyllidol. Roedd yn cynnwys cyllid canlyniadol disgwyliedig o £600m i Gymru yn sgil cynnydd mewn yswiriant gwladol i ariannu gofal cymdeithasol.

5. Rhoddodd y Gweinidog yr wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am ei chyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, yn unigol ac ochr yn ochr â Gweinidogion Cyllid y gwledydd datganoledig eraill.

6. Diolchodd y Gweinidog i'r aelodau a'u cydweithwyr am eu gwaith parhaus ar y gyllideb caledi, a chadarnhaodd fod y gyllideb wedi'i hymestyn i £327m. Nododd nad oedd yn disgwyl i'r gronfa barhau y tu hwnt i 31 Mawrth 2022 ac y byddai effaith barhaus COVID-19 yn cael ei hystyried fel rhan o'r gyllideb ddrafft.

7. Nododd y Cynghorydd Hunt fod gan lywodraeth leol yng Nghymru flaenoriaethau yn gyffredin â Llywodraeth Cymru i lobïo Llywodraeth y DU, o ran COP26, diogelwch tomenni glo, cyllid olynol yr UE, a chynnydd mewn credyd cynhwysol.

8. Cytunodd y Gweinidog a'r Cynghorydd Hunt y byddent yn cydgysylltu cynnwys llythyrau i'w hanfon at y Canghellor cyn yr adolygiad o wariant.

9. Nododd y Cynghorydd Pritchard ei bryder ynghylch y ffaith bod y gronfa galedi yn dirwyn i ben ar ddiwedd y flwyddyn. Cydnabu'r Gweinidog y pryder ynghylch yr ansicrwydd y mae'r pandemig yn ei greu ond eglurodd nad oedd cyllid ar wahân gan Lywodraeth y DU i ymateb i COVID-19, ac y byddai unrhyw gronfa ar wahân

yn cael effaith ar lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer cyllidebau eraill, er enghraifft y grant cymorth refeniw.

**Eitem 4: Materion cyllido llywodraeth leol CLlLC**

10. Cyflwynodd CLlLC bapur yn amlinellu canlyniad arolwg o bob un o'r 22 o awdurdodau ar y pwysau rhagamcanol ar lywodraeth leol yn ystod cyfnod cyllideb 2022-23 i 2024-25. Roedd hyn yn cynnwys costau codiadau cyflog, chwyddiant cyffredinol, gofal cymdeithasol a'r cyflog byw gwirioneddol, cynnydd mewn galw a chostau parhaus yn ymwneud â'r ymateb parhaus i COVID-19.

11. Diolchodd y Gweinidog i CLlLC a thrysorwyr yr awdurdodau lleol am eu mewnbwn i'r papur a fyddai'n llywio trafodaethau ar gyfer y gyllideb ddrafft.

12. Trafododd y Cynghorwyr Clement-Williams, Pritchard, Morgan, Siencyn a Stewart y pwysau ym maes gofal cymdeithasol i blant ac oedolion yn y tymor byr a'r tymor hwy. Hefyd rhoddodd y Cynghorydd Clement-Williams yr enghraifft o barthau 20mya fel polisi yr oedd angen ei ariannu i'w gyflawni.

13. Nododd y Gweinidog y byddai'n rhannu'r pryderon am gyllido parthau 20mya â'r Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd. Hefyd nododd y byddai'r adolygiad o wariant yn darparu llawer mwy o wybodaeth i gefnogi penderfyniadau cyllidebol Llywodraeth Cymru.

**Eitem 5: Gweinidog y Gymraeg ac Addysg – Cyflog athrawon**

14. Arweiniodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg drafodaeth ynghylch sut y gellid sicrhau mwy o gysondeb wrth drafod cyflog athrawon a setliad refeniw ehangach llywodraeth leol. Y nodau allweddol oedd galluogi Awdurdodau Lleol i gyllidebu a blaengynllunio yn unol â thybiaethau clir ynghylch dyfarniadau cyflog posibl, a dileu'r angen am drafodaethau ariannol “yn ystod y flwyddyn”, gan sicrhau bod y broses yn gyson ag amseriad y setliad.

15. Trafododd y Cynghorwyr Roberts, Pritchard a Siencyn yr amseru presennol; roedd dyfarniadau cyflog athrawon yn ei gwneud hi'n anodd cyllidebu a chan fod proses annibynnol, a bod y penderfyniad yn cael ei wneud ar lefel Weinidogol, nid oedd modd i lywodraeth leol leisio barn am fforddiadwyedd. Defnyddiwyd tybiaethau mewn cyllidebau ond os oedd y rhain yn wahanol i benderfyniadau terfynol, byddai'n rhaid i'r ysgolion, Awdurdodau Lleol neu Lywodraeth Cymru dalu'r gost. Roedd hefyd yn anodd am mai cyrff llywodraethu sy'n rhedeg ysgolion ac nid yr awdurdod lleol.

16. Croesawodd CLlLC unrhyw newidiadau i symleiddio proses gymhleth. Nododd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg fod yr egwyddorion i symud ymlaen yn glir ac mai awdurdodau lleol ddylai fod yn gyfrifol am dalu cost dyfarniadau cyflog yn llawn, gan adlewyrchu'r cynnydd mewn cyllid a ddarparwyd yng Ngrant Cymorth Refeniw Awdurdodau Lleol. Byddai gwaith yn mynd rhagddo ar yr agweddau ymarferol dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod.

**Eitem 6: Diwygio Cyllid Llywodraeth Leol**

17. Amlinellodd y Gweinidog uchelgeisiau i wella'r trethi lleol er mwyn iddynt fod yn decach ac yn fwy cyson â'r Rhaglen Lywodraethu. Nododd fod cyfarfod yn cael ei gynnal ar 1 Rhagfyr i drafod diwygio cyllid llywodraeth leol yn fanylach.

18. Eglurodd Debra Carter mai sesiwn friffio dechnegol fyddai'n cael ei chynnal ar 1 Rhagfyr, a bod swyddogion yn trafod y ffordd orau o ddefnyddio'r sesiwn â swyddogion llywodraeth leol. Nodwyd y byddai unrhyw waith diwygio yn brosiect mawr a fyddai'n cymryd sawl blwyddyn. Mae swyddogion yn edrych ar ba mor ymarferol yw'r gwahanol opsiynau yn y 'byd go iawn' Bydd angen i Lywodraeth Cymru droi at lywodraeth leol am ei harbenigedd cyn cyflwyno unrhyw ddiwygiadau.

19. Croesawodd y Cynghorwyr Hunt a Pritchard y fath gydweithio a'r gydnabyddiaeth y byddai'r amserlenni yn heriol ac y gallai gymryd hyd at ddau dymor i gyflawni'r gwaith.

20. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn awyddus i bennu ffordd ymlaen yn fuan oherwydd byddai'r gwaith dan sylw yn cymryd amser.

**Eitem 7: Adroddiad yr Is-grŵp Dosbarthu**

21. Cyflwynodd Ashley Caddick grynodeb o'r papur ac eglurodd fod y rhan fwyaf o'r rhaglen waith yn edrych ar ddata oherwydd newidiadau i amseriad y gwaith casglu neu ymchwilio i effaith y pandemig.

22. Nododd y Cynghorwyr Davies, Siencyn a Clement-Williams ei bod yn bwysig cadarnhau'r defnydd o ddata cyn gynted â phosibl er mwyn cefnogi'r gwaith o gynllunio cyllideb llywodraeth leol. Trafodwyd y ffaith bod angen i'r cwantwm cyffredinol fod yn ddigon mawr i allu ymdopi ag unrhyw newidiadau dosbarthu, ac a fyddai angen ystyried cyllido gwaelodol.

**Eitem 8: Diweddariad gan Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu**

23. Cyflwynodd Peter Curran bapur yn amlinellu'r pwysau sy'n wynebu heddluoedd yng Nghymru a gwnaeth hefyd gyfeirio at bwysau eraill megis llinellau cyffuriau, costau heddweision newydd uwchlaw cyllid cyflog sylfaenol, a'r ardoll brentisiaethau.

24. Croesawodd y Gweinidog y trafodaethau parhaus ynghylch yr ardoll brentisiaethau roedd yr heddluoedd yn eu cael â Llywodraeth y DU, a gofynnodd am iddi barhau i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

**Eitem 7 ar yr Agenda: Unrhyw Fater Arall**

25. Nododd y Cynghorydd Clement-Williams ei bod yn teimlo nad oedd defnyddio ffigurau Band D i egluro lefelau'r dreth gyngor yn adlewyrchu’r sefyllfa mewn awdurdodau â lefelau uchel o eiddo mewn bandiau is.

26. Nododd y Gweinidog y byddai'n trafod hyn â swyddogion yn dilyn y cyfarfod gan fod sgil-effaith ar y ffordd y mae'r bobl yn deall dyraniadau'r setliad.

**Diwedd**